



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Profi
Olrhain
Diogelu

Test
Trace
Protect



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE



Strategaeth Brofi i Gymru

Ionawr 2021



Cynnwys

3 Cyd-destun

4 Profi, Olrhain, Diogelu

4 Profi a dymmeg haint COVID-19

6 Profi a Genomeg, Ymchwilio i'r Feirws

6 Y Gallu i Profi a Pherfformiad Profion

8 Ein blaenoriaethau

9 Profi i Wneud Diagnosis

10 Profi i Ddiogelu

11 Profi i Ddarganfod

13 Profi i Gynnal

13 Profi i Alluogi

14 Y Camau Nesaf

Cyd-destun

Pan wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Brofi ar 15 Gorffennaf 2020, roeddem yn y broses o lacio'r cyfyngiadau symud ar ôl ton gyntaf pandemig COVID-19. Ers hynny, mae profi wedi parhau i fod yn rhan ganolog o'n dull cyffredinol o atal trosglwyddiad COVID-19 ledled Cymru.

Nid yw profi ar ei ben ei hun yn atal nac yn lleihau lledaeniad y feirws yn ein cymunedau. Rhaid i bawb gadw pellter cymdeithasol lle bo modd, arfer hylendid dwylo da a dilyn y canllawiau ar wisgo gorchuddion wyneb er mwyn ein cadw ni i gyd yn ddiogel, p'un a ydynt wedi cael prawf yn ddiweddar ai peidio.

Gall profi gyfrannu at leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19 ac, ers i'r strategaeth ddiwethaf gael ei chyhoeddi, mae technolegau profi newydd wedi dangos bod modd profi ar raddfa lawer mwy ac yn llawer amlach a chyflymach

nag erioed o'r blaen. Mae angen inni fanteisio i'r eithaf ar yr hyn y gall y technolegau newydd hyn ei gynnig, mewn ffyrdd sy'n ddibynadwy, yn ddiogel ac yn cyflawni ein blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer profi yng Nghymru. Mae angen hefyd inni barhau i fod yn ystwyth yn ein dull gweithredu ar gyfer profi, wrth inni ddysgu mwy am y feirws, unrhyw straeniau newydd ohono a pha mor drosglwyddadwy ydynt.

Mae'r diweddariad hwn yn nodi sut y bydd technoleg brofi newydd yn gweithio ochr yn ochr â'n seilwaith profi presennol er mwyn ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau. Ar ddechrau 2021, bydd ein dull yn parhau i ddatblygu er mwyn ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Bydd profi yn parhau i chwarae rhan bwysig ochr yn ochr â'r brechlyn er mwyn ein helpu i achub bywydau a bywoliaeth pobl yn ystod 2021 a'r tymor hwy.



Profi, Olrhain, Diogelu

Mae profi pobl er mwyn canfod y rhai sydd â COVID-19 yn un rhan o'n rhaglen gyffredinol i reoli lledaeniad COVID-19.

Mae olrhain y bobl hynny sydd wedi bod mewn cysylltiad agos â pherson sydd wedi cael canlyniad prawf positif, a rhoi cyngor ac arweiniad yn hanfodol i atal y feirws rhag lledaenu drwy ein cymunedau. Rydym yn defnyddio ap COVID-19 y GIG, ochr yn ochr â staff olrhain cysylltiadau traddodiadol, i hysbysu pobl os byddant wedi dod i gysylltiad â rhywun a gafodd ganlyniad prawf coronafeirws positif wedi hynny.

Mae'n bwysig cael cysylltiad di-dor rhwng profi ac olrhain. Felly, rydym yn gweithio i ddod o hyd i atebion digidol er mwyn sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl cofnodi canlyniad unrhyw brawf, fel y gellir dechrau olrhain cysylltiadau mor gynnar â phosibl, a chanfod unrhyw gysylltiadau sydd gan achosion positif a gofyn iddynt hunanynysu.

Bydd integreiddio data genomeg yn golygu bod modd gwneud rhagor o waith dadansoddi manwl, ac yn darparu data i ategu clystyrau posibl a nodir drwy olrhain cysylltiadau. Mae genomeg hefyd yn golygu bod modd archwilio'r ffordd y daw'r feirws i mewn i Gymru, sef gwaith sydd eisoes wedi cael ei wneud yn ystod y don gyntaf a haf 2020. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i deithio byd-eang aildechrau wrth i 2021 fynd rhagddi.

Mae gofyn i bobl hunanynysu yn ffordd bwysig o atal trosglwyddo'r feirws ond, i lawer o bobl, gall olygu colli incwm. Ym mis Hydref 2020, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i gefnogi pobl a chwalu'r rhwystrau ariannol a oedd yn wynebu pobl roedd angen iddynt hunanynysu. Mae'r cynllun taliadau cymorth hunanynysu¹ wedi'i fwriadu ar gyfer pobl sydd ar incwm isel, na allant weithio gartref, y mae'n rhaid iddynt hunanynysu. Mae hefyd ar

gyfer rhieni a gofalwyr ar incwm isel sydd â phlant sy'n hunanynysu. Mae taliad sefydlog o £500 ar gael i bobl gymwys y gofynnir iddynt hunanynysu am eu bod wedi cael canlyniad prawf coronafeirws positif neu am fod gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru wedi eu hadnabod fel cysylltiad agos. Hefyd, mae'r Cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol² yn rhoi cyflog llawn i weithwyr gofal cymdeithasol penodol pan fydd angen iddynt gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith o ganlyniad i COVID-19.

Profi a dynameg haint COVID-19

Mae ein dealltwriaeth o COVID-19 yn gwella drwy'r amser ac yn ein helpu i wybod sut i ddehongli canlyniadau a phenderfynu pryd y gall profion fod o'r budd mwyaf. COVID-19 yw'r clefyd a achosir pan gaiff pobl eu heintio â feirws SARS-CoV-2. Ar sail y feirws gwreiddiol, gwyddom y canlynol:

- Cyfnod magu canolrifol y feirws yw 5.1 diwrnod, a bydd mwy na 97% o'r unigolion a fydd yn datblygu haint yn gwneud hynny ymhen 14 diwrnod ar ôl dod i gysylltiad â'r feirws.
- Bydd unigolion ar eu mwyaf heintus tua'r adeg y bydd symptomau'n dechrau. Tybir eu bod yn heintus am ddeuddydd cyn i'r symptomau ddechrau ac am 10 diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau, ond bydd heintusrwydd yn lleihau'n sylweddol ar ôl pum diwrnod.
- Mae'r sbectrwm symptomau yn eang. Er y bydd gan gyfran o bobl haint difrifol (yn enwedig yr henoed neu bobl â chyflyrau sylfaenol), nid oes gan hyd at draean o unigolion sy'n profi'n bositif am y feirws unrhyw symptomau o gwbl.³

¹ <https://llyw.cymru/cynllun-cymorth-hunanynysu>

² <https://llyw.cymru/cynllun-ychwanegiad-dal-salwch-statudol-ar-gyfer-covid-19>

³ <https://www.gov.uk/government/publications/nervtag-rapid-review-of-the-asymptomatic-proportion-of-pcr-confirmed-sars-cov-2-infections-in-community-settings-9-september-2020>

- Yn ystod salwch nodweddiadol, bydd faint o'r feirws sydd mewn samplau o'r pibellau anadlu uchaf yn cynyddu a bydd ar ei fwyaf tua'r adeg y bydd y symptomau'n dechrau, sef yr adeg pan fydd yr unigolyn ar ei fwyaf heintus. Ar ôl hynny, bydd lefel y protein neu asid riboniwcleig (RNA) feirysol yn gostwng. Gall RNA feirysol barhau i fod yn ganfyddadwy am gyfnod o wythnosau neu fisoedd ar ôl i'r unigolyn wella, ond nid yw'n cynrychioli feirws heintus byw.
- Mae'r feirws yn parhau i addasu. Rydym yn defnyddio genomeg fel ffordd o archwilio effaith mwntaniadau ar berfformiad profion deagnostig, i ganfod ac olrhain mwntaniadau y gall fod angen ymchwilio ymhellach iddynt.

Rydym yn defnyddio ein dealltwriaeth o ddynameg yr haint, ynghyd â nodweddion a pherfformiad yr amrywiol brofion sydd ar gael inni, er mwyn llywio penderfyniadau ar y ffordd orau o ddefnyddio'r gwahanol brofion.

Rydym yn parhau i gynnal profion ar unigolion sydd heb symptomau gan ddefnyddio profion RT-PCR. Mae cael canlyniadau prawf yn gyflym drwy fethodolegau profi newydd (e.e. profion llif unffordd) yn cyflwyno'r potensial i ychwanegu at y cynnig profi presennol a datblygu dulliau profi newydd. Caiff ein dull o ddefnyddio unrhyw dechnoleg profi ei lywio gan y dystiolaeth sydd ar gael. Rydym yn parhau i adolygu ein dull profi,

ac os yw dystiolaeth yn newid rydym yn ystyried ac yn diwygio ein dull gweithredu yn ôl yr angen.


Y prif elfennau ar gyfer gwerthuso cywirdeb profion yw sensitifedd a phenodolrwydd deagnostig, sy'n pennu pa mor debygol yw cael canlyniadau positif anghywir neu negatif anghywir:

- Penodolrwydd y prawf yn bennaf sy'n pennu pa mor debygol yw canlyniadau positif anghywir.
- Sensitifedd y prawf a chyffredinrwydd COVID-19 ymhlith y boblogaeth a brofir sy'n pennu pa mor debygol yw canlyniadau negatif anghywir.

Nid dim ond perfformiad y prawf sy'n penderfynu ar berfformiad neu gywirdeb unrhyw brawf penodol, ond hefyd y cyddestun y caiff y prawf ei gynnal ynddo. Er enghraifft, os bydd y profion yn targedu unigolion sydd â symptomau, bydd y tebygolrwydd o ganlyniad positif cyn cael y prawf yn uwch ac, felly, byddai'r gyfran o ganlyniadau positif a oedd yn ganlyniadau positif anghywir yn fwy, ond nid y nifer. Hefyd, petai'r protocol profi a fabwysiedir yn cynnwys profion eildro, byddai pob cylch o brofion eildro yn lleihau nifer y canlyniadau negatif anghywir.

Mae'r diagram isod yn dangos rhai o'r gwahaniaethau rhwng profion RT-PCR a rhai o'r dulliau profi llai sensitif megis profion llif unffordd. Mae'n dangos bod profion llif unffordd yn debygol o fod yn

Rethinking Covid-19 Test Sensitivity – A Strategy for Containment, The New England Journal of Medicine



fwy cywir pan fydd unigolion ar eu mwyaf heintus (yn fwyaf tebygol o ledaenu'r feirws). Golyga hyn fod hwn yn brawf da ar gyfer pennu heintusrwydd am ei fod yn fwy sensitif pan gaiff ei ddefnyddio ar bobl ar eu mwyaf heintus.

Rydym yn parhau i gael ein cyngori gan arbenigwyr yn lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Grŵp Cyngori Technegol ar Brofi er mwyn sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd y profion.

Profi a Genomeg, Ymchwilio i'r Feirws

Yng Nghymru, rydym wedi elwa ar fuddsoddiad mewn Genomeg Pathogenau fel rhan o strategaeth Genomeg ar gyfer Meddygaeth Fanwl, ynghyd â rhwydwaith cenedlaethol o labordai ledled y DU o dan ambarél COG-UK, sy'n cynnig galluogrwydd sydd wir o'r radd flaenaf. Mae faint o ddata a gynhyrchir yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach, a'r ffordd y cânt eu defnyddio mewn amser real, ar flaen y gad yn fyd-eang. Mae canfod clystyrau a chadwyni trosglwyddo, ynghyd â'r epidemioleg uniongyrchol, wedi darparu gwybodaeth werthfawr y gellir gweithredu arni sydd wedi cefnogi ein timau yn y GIG a'n timau Diogelu Iechyd yn eu hymdrechion i reoli lledaeniad SARS-CoV-2 mewn ysbytai ac yn ein cymunedau. Ar raddfa genedlaethol, mae dadansoddiadau genomeg wedi helpu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i lunio polisiau.

Feirws RNA yw SARS-CoV-2 ac, fel yn achos nifer o feirysau RNS, mae newidiadau'n tueddu i ddigwydd o fewn ei ddilyniant. Mae trechedd amrywiolyn sy'n peri pryder yn Ne-ddwyrain Lloegr o fewn cyfnod byr wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion, gan arwain at gynnydd cyffredinol yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ac sy'n marw. Drwy genomeg y cafodd yr amrywiolyn hwn ei adnabod a'i nodweddu, a genomeg yw'r unig ddull sy'n bodoli a all adnabod amrywiolynnau sy'n peri pryder neu amrywiolynnau y dylid ymchwilio iddynt yn ddiamwys. Mae'n anochel y daw rhagor o

amrywiolynnau sy'n peri pryder ac sydd o ddiddordeb i'r amlwg, ac felly bydd angen y math o wylidwriaeth sydd ond yn bosibl drwy rwydwaith genomeg sy'n gweithio'n effeithiol ym mhob cwr o'r DU. Mae profi yn gysylltiedig â'r rhwydwaith hwn fel y gallwn brofi'n ddi-dor i ganfod y feirws a gwneud gwaith dilyniannu er mwyn canfod unrhyw amrywiolynnau. Bydd profi a genomeg hefyd yn helpu i gadw golwg ar y clefyd ar ôl brechu. Gan weithio gyda phartneriaid eraill yn y DU, ac ar draws y sectorau iechyd anifeiliaid a phobl, mae genomeg yn darparu set o ddata y gellir eu cysylltu ar gyfer mynd i'r afael â chwestiynau ymchwil, ac ar gyfer sganio'r gorwel.

Y Gallu i Brofi a Pherfformiad Profion

Gwneir gwaith rheolaidd i fodelu'r galw am y prawf RT-PCR ac mae'n cyfrif am nifer o newidynnau, lledaeniad y clefyd, mynychder achosion newydd a chyfraddau trosglwyddo yn y gymuned, cyffredinrwydd symptomau a'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar y ffordd orau o ddefnyddio'r profion i atal heintiau, a chynnydd yn y galw am brofion cadarnhau yn dilyn canlyniadau positif o ddyfais llif unffordd. Mae hefyd angen iddo ystyried yr ymddygiadau a all ddylanwadu ar y galw.

Roedd ein strategaeth ym mis Gorffennaf yn nodi'r gofyniad modelu RT-PCR y gallai'r cyfuniad o olrhain cysylltiadau a dibenion profi eraill olygu bod angen inni gynnal cynifer â 20,000 o brofion y dydd o bosibl. O'r cyfanswm hwn, amcangyfrifwyd mai'r galw yn sgil olrhain cysylltiadau oedd rhwng 4,500 ac 11,000 y dydd.

Ers inni gyhoeddi'r strategaeth flaenorol, rydym wedi gweld cynnydd yn y galw am brofion wythnosol o lai na 18,000 (canol mis Gorffennaf) i uchafbwynt o ychydig o dan 127,000 (canol mis Rhagfyr). Hefyd yn y cyfnod hwn, rydym wedi rheoli achosion o gynnydd sydyn yn y galw, er enghraifft pan ailagorodd ysgolion ym mis Medi.

Roedd y strategaeth brofi a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn amlinellu ein hymrwymiad i feithrin cadernid, cynaliadwyedd a gwella amseroedd

cyflawni yn labordai GIG Cymru. Ym mis Awst, gwnaethom gyhoeddi buddsoddiad o £32 miliwn i gefnogi gwelliannau ac mae'r lefelau gallu posibl roeddem yn eu disgwyl mewn labordai wedi cael eu cyflawni. Ar hyn o bryd, daw tua 70% o gapasiti labordai i brosesu profion RT-PCR drwy Rwydwaith Labordai Goleudy a daw tua 30% o gapasiti labordai GIG Cymru. Erbyn hyn, gallai Cymru brosesu cyfanswm o 37,000 o brofion labordy bob dydd petai angen. Fel arfer, bydd 80% o'r unigolion sy'n mynd i leoliad i gael prawf yn cael eu canlyniadau o fewn diwrnod, a 98% o bobl yn eu cael o fewn deuddydd. Mewn cartrefi gofal a lleoliadau caeedig, mae dros 85% o bobl yn cael eu canlyniadau o fewn deuddydd ar hyn o bryd drwy Labordai Goleudy neu labordai GIG Cymru ac rydym yn parhau i weithio ar wella'r amseroedd hyn.

Rydym hefyd wedi ehangu ystod ein samplau a'n seilwaith profi. Mae ein capasiti samplu bellach yn cynnwys Safleoedd Profi Lleol sy'n galluogi pobl i gael prawf ar droed, sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl a chymunedau gael profion yn lleol. Rydym yn bwriadu agor rhagor o safleoedd ar ddechrau 2021. Rydym yn cynyddu capasiti ein hunedau profi symudol a byddwn yn ystyried y ffordd rydym hefyd yn defnyddio'r dechnoleg profi newydd sydd ar gael inni fel rhan o'n dull profi symudol er mwyn helpu i gyflawni ein blaenoriaethau profi. Byddwn hefyd yn ystyried cyfleoedd i estyn ein capasiti profi asymptomatig, gan gynnwys Safleoedd Profi Asymptomatig mewn cymunedau, gweithleoedd, ysgolion a cholegau.

Mae gennym bellach ystod eang o gyfleusterau ledled y wlad – gweler y manylion yma <https://llyw.cymru/cyfleusterau-profi-coronafeirws-rhanbarthol>

Ein Blaenoriaethau

Gwyddom nad y niwed uniongyrchol a achosir i'r bobl a gaiff eu heintio yw'r unig niwed a achosir gan COVID-19. Achosir niwed hefyd pan fydd y GIG a systemau gofal cymdeithasol wedi'u gorlethu; pan fydd llai o weithgareddau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19; ac o ganlyniad i gamau gweithredu cymdeithasol ehangach megis cyfyngiadau symud.

Niwed yn sgil COVID-19 ei hun	Niwed yn sgil gorlethu'r GIG a'r system gofal cymdeithasol
Niwed yn sgil llai o weithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19	Niwed yn sgil camau gweithredu cymdeithasol ehangach/cyfyngiadau symud

Nod ein strategaeth brofi yw lleihau neu liniaru'r niwed hwn lle bynnag y bo modd.

Yn ogystal â defnyddio profion i ganfod COVID-19 er mwyn helpu i roi triniaeth a chefnogi'r broses olrhain cysylltiadau, a thrwy hynny leihau lledaeniad y clefyd, rydym yn gwireddu'r potensial a gynigir gan dechnolegau profi newydd i fabwysiadu dulliau profi sy'n galluogi unigolion i barhau i gael addysg yn y cnawd ac i weithio, ac sy'n helpu i gynnal gwasanaethau allweddol pan fydd cyffredinrwydd y feirws yn uchel. Caiff profion eu defnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysbytai, safleoedd profi, cartrefi gofal ac unedau profi symudol. Ochr yn ochr â'r rhaglen frechu, bydd profion hefyd yn cefnogi'r broses o ddychwelyd yn ddiogel i weithgarwch cymdeithasol ac economaidd arferol.

Rydym yn defnyddio ein gallu o'r radd flaenaf ym maes genomeg i wella ein gallu i brofi er mwyn cefnogi diagnosteg, sicrhau bod modd rheoli brigiadau o achosion yn well, canfod amrywiolynnau newydd, a gwella ein gwaith o gadw golwg ar ledaeniad y feirws yn ein cymunedau a ledled y wlad. Wrth i gyffredinrwydd y

feirws mewn cymunedau newid, bydd angen i'n dull gweithredu ni ar gyfer profi, a'r pwyslais sydd angen ei roi ar bob un o'n blaenoriaethau, ymateb ac addasu.

Yn unol â phrif egwyddorion arweiniol y pedwar niwed, a chan barhau i gadw'r saith egwyddor a nodir gan Goleg Brenhinol y Patholegwyr yn flaenllaw yn ein meddyliau, rydym wedi adolygu ein blaenoriaethau profi a fydd yn parhau i fod fel a ganlyn:

1. Cefnogi gofal clinigol y GIG – rhoi diagnosis i'r bobl sydd wedi'u heintio fel y gellir gwneud penderfyniadau clinigol er mwyn sicrhau'r gofal gorau.
2. Diogelu ein GIG a'n gwasanaethau gofal cymdeithasol a'n hunigolion mwyaf agored i niwed.
3. Targedu brigiadau o achosion a gwella gwyliadwriaeth yn y gymuned er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu ymhlith y boblogaeth.
4. Cefnogi'r system addysg ac iechyd a llesiant ein plant a'n pobl ifanc a'u galluogi i wireddu eu potensial.
5. Adnabod cysylltiadau achosion positif er mwyn eu hatal rhag lledaenu'r haint petaent yn cael eu heintio ac yn mynd yn heintus eu hunain, a chynnal gwasanaethau allweddol.
6. Hybu llesiant ac adferiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Mewn geiriau eraill, ein strategaeth yw:

1. Profi i wneud diagnosis
2. Profi i ddiogelu
3. Profi i ddarganfod
4. Profi i gynnal
5. Profi i alluogi

Profi i wneud diagnosis	Profi i ddiogelu	Profi i ddarganfod	Profi i gynnal		Profi i alluogi
Cefnogi gofal clinigol y GIG	Diogelu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'n hunigolion mwyaf agored i niwed.	Targedu brigadau o achosion a gwella gwyliadwriaeth yn y gymuned	Cefnogi addysg	Adnabod cysylltiadau achosion positif er mwyn cynnal gwasanaethau allweddol.	Hybu llesiant cymdeithasol, economaidd, a diwylliannol
Niwed yn sgil COVID-19 ei hun	Niwed yn sgil gorlethu'r GIG a'r system gofal cymdeithasol	Niwed yn sgil llai o weithgarwch nad yw'n gysylltiedig â COVID-19			Niwed yn sgil camau gweithredu cymdeithasol ehangach/ cyfyngiadau symud

1. Profi i Wneud Diagnosis

Mae angen inni ganfod cleifion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus cyn gynted â phosibl, yn enwedig y rhai sy'n mynd i'r ysbyty, fel y gallant gael triniaeth benodol ar gyfer COVID-19. Mae cadarnhau'r diagnosis hefyd yn bwysig er mwyn lleihau ansicrwydd a'r angen am ymchwiliadau pellach. Yn y cyd-destun hwn, mae angen prawf sensitif a phenodol iawn. Dylai unrhyw ganlyniad prawf gael ei ddehongli yn y cyd-destun clinigol a dylid cyfarwyddo profion pellach yn ôl yr angen.

Bydd ein strategaeth brofi yn y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar gefnogi pobl sy'n derbyn gofal a/neu'n cael eu derbyn i ysbytai. Bydd hyn yn cynnwys:

- Profi cleifion sydd heb symptomau pan gânt eu derbyn i'r ysbyty. Y cyffredinrwydd ymhlith y boblogaeth hon yw tua 25%⁴ ar hyn o bryd. Dylai hwn fod yn brawf sensitifedd uchel er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o gleifion sydd wedi cael canlyniadau negatif anghywir yn mynd i mewn i ardaloedd 'glân', a dylai fod yn brawf penodolrwydd uchel er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o gleifion sydd wedi cael canlyniadau positif anghywir yn dod i gysylltiad ag ardaloedd lle mae COVID-19 yn bresennol.
- Hefyd, dylai cleifion sydd heb symptomau gael eu profi pan gânt eu derbyn i'r ysbyty. Mae'n debygol mai'r cyffredinrwydd ymhlith y boblogaeth hon yw 1-3%⁵. Er ei bod yn fuddiol cael

prawf sensitifedd uchel, gall nifer y canlyniadau negatif anghywir o brawf llai sensitif fod yn dderbyniol o ystyried y cyffredinrwydd is ymhlith y boblogaeth hon.

- Dylai unrhyw glaf sy'n datblygu symptomau yn ystod y broses o'i dderbyn i'r ysbyty gael ei brofi. Dylai hwn fod yn brawf â sensitifedd a phenodolrwydd uchel.
- Y nod wrth brofi cleifion mewnol sydd heb symptomau bum diwrnod ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty fyddai canfod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus ond sydd heb symptomau a oedd yn magu'r haint ar adeg eu derbyn i'r ysbyty o bosibl. Mae'n debygol bod cyffredinrwydd yr haint ymhlith y boblogaeth hon, a gafodd ganlyniad prawf negatif ar adeg eu derbyn i'r ysbyty ac na wnaethant ddatblygu symptomau wedyn, yn isel iawn (~0.25 – 0.5%). Er ei bod yn fuddiol cael prawf sensitifedd uchel, gall nifer y canlyniadau negatif anghywir o brawf llai sensitif fod yn dderbyniol o ystyried y cyffredinrwydd is ymhlith y boblogaeth hon.
- Gall profi pobl y trefnwyd ymlaen llaw iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty yn ystod y 72 awr cyn iddynt gael eu derbyn ddiogelu cleifion a fyddai'n wynebu mwy o risg yn sgil COVID-19 oherwydd triniaethau a drefnwyd (e.e. cemotherapi neu lawdriniaeth), a hefyd helpu i ffrydio cleifion i mewn

4 PHW Lumira DX Ed Study

5 Roedd dadansoddiad cychwynnol o gynllun peilot Merthyr yn dangos cyfradd bositifedd o 2.3%.

i lwybrau 'gwyrrdd'. Y mesur diogelu mawr yw hunanynysu am 7-14 diwrnod cyn mynd i'r ysbyty, ond gall profi hefyd roi tawelwch meddwl. Dylid defnyddio prawf â sensitifedd a phenodolrwydd uchel.

2. Profi i Ddiogelu

Mae COVID-19 yn her mewn lleoliadau caeedig fel ysbytai, cartrefi gofal a charchardai oherwydd gall fod yn anodd rheoli lledaeniad yr haint ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Mae'r risg y caiff yr haint ei gyflwyno i leoliadau caeedig yn gysylltiedig â chyffredinrwydd yr haint yn y gymuned, felly mae angen bod yn fwy gwyliadwrs pan fydd y cyffredinrwydd ymhlith y boblogaeth yn uwch.

Gall unigolion sydd wedi'u heintio fynd i mewn i leoliadau caeedig fel preswylwyr, ymwelwyr neu aelodau o staff sydd â symptomau neu heb symptomau. Y prif fesur i reoli'r risg o haint yw defnyddio gweithdrefnau priodol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau. Gall profion gynnig rhywfaint o fesurau diogelu ychwanegol ond ni ellir eu defnyddio fel yr unig dull rheoli.

Dylai staff sydd â symptomau, ble bynnag y maent yn gweithio, hunanynysu a gofyn am brawf. Dylai'r prawf fod yn un â sensitifedd uchel er mwyn atal canlyniadau negatif anghywir (e.e. RT-PCR).

Mae'n bosibl y gall profi staff heb symptomau sy'n gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed, yn enwedig mewn lleoliadau caeedig, ganfod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus a allai beri risg fel arall. Er ei bod yn fuddiol cael prawf sensitifedd uchel, gall nifer y canlyniadau negatif anghywir o brawf llai sensitif fod yn dderbyniol o ystyried y cyffredinrwydd is ymhlith y boblogaeth hon. Mae gwaith modelu yn awgrymu y gall cynnal prawf sensitifedd uchel yn wythnosol leihau digwyddiadau trosglwyddo oddeutu 50%, ac y gall cynnal prawf â sensitifedd is ddwywaith yr wythnos hefyd leihau cyfraddau trosglwyddo 50%. Am y rheswm hwn, rydym yn profi pobl sydd heb

symptomau gan ddefnyddio profion llif unffordd o leiaf ddwywaith yr wythnos.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru⁶ gynllun gweithredu manwl ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn helpu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r cyhoedd i ddeall y mesurau sydd ar waith i ddiogelu'r unigolion mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi'r trefniadau profi a ddylai fod ar waith ar gyfer staff ar wahanol lefelau cyffredinrwydd, a sut i leihau'r risg pan ganiateir i ymwelwyr a staff gofal allanol ddod i mewn i'r cartref.

Dechreuwyd strategaeth frechu uchelgeisiol ym mis Rhagfyr 2020, gyda'r nod o ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn gyntaf, yn cynnwys pob preswlydd a phob aelod o staff mewn cartrefi gofal; staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen; pobl 70 mlwydd oed a hŷn; ac unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol. Er bod hyn yn gadarnhaol tu hwnt, rhaid parhau i brofi hyd y gellid rhagweld. Y rheswm dros hyn yw nad oes tystiolaeth ar gael eto i benderfynu a yw brechu'n lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws i bobl eraill. Wrth i'r broses frechu fynd rhagddi ac wrth inni ddod i wybod mwy am effeithiolrwydd y brechu, byddwn yn parhau i adolygu ein dull profi.

Mae ein dull o brofi i ddiogelu yn golygu y caiff y bobl ganlynol eu profi heb symptomau:

- **Staff y GIG** – Mae'n bosibl y gall profi staff sydd heb symptomau helpu i adnabod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus a allai gymysgu yn yr ysbyty fel arall.
- **Staff cartrefi gofal** – Mae'n bosibl y gall profi staff sydd heb symptomau helpu i adnabod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus a allai gymysgu yn y cartref gofal fel arall.
- **Staff byw â chymorth** – Mae'n bosibl y gall profi staff sydd heb symptomau sy'n ymweld â phobl agored i niwed helpu i adnabod unigolion sydd wedi'u

⁶ https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru-ar-gyfer-gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-i-oedolion-a-phlant?_ga=2.161726908.1229657194.1609232199-1910190658.1608545499

heintio/sy'n heintus a allai roi'r unigolion y byddant yn ymweld â nhw mewn perygl fel arall.

- **Staff ysgolion arbennig** – Mae'n bosibl y gall profi staff sydd heb symptomau sy'n gweithio gyda phobl agored i niwed helpu i adnabod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus a allai roi'r unigolion y byddant yn gweithio gyda nhw mewn perygl fel arall.
- **Staff gofal cartref** – Mae'n bosibl y gall profi staff sydd heb symptomau sy'n ymweld â phobl agored i niwed helpu i adnabod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus a allai roi'r unigolion y byddant yn ymweld â nhw mewn perygl fel arall.
- **Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal a chymorth preswyl eraill** – Mae'n bosibl y gall profi staff sydd heb symptomau sy'n ymweld â phobl agored i niwed helpu i adnabod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus a allai roi unigolion agored i niwed mewn perygl fel arall.
- **Carcharorion** – Dylai unrhyw garcharor sy'n datblygu symptomau gael ei brofi. Dylai pob carcharor newydd gael ei brofi ar adeg ei dderbyn i'r carchar. Dylai'r prawf hwn fod yn un â sensitifedd a phenodolrwydd uchel (e.e. RT-PCR); gallai effaith canlyniadau negatif anghywir fod yn sylweddol am ei bod yn anodd rheoli lledaeniad y feirws.
- **Preswylwyr cartrefi gofal** – Dylai unrhyw breswlydd sy'n datblygu symptomau gael ei brofi. Dylai pobl a gaiff eu derbyn o'r gymuned neu o ysbytai neu leoliadau caeedig eraill gael eu profi cyn iddynt gael eu derbyn. Dylai'r prawf hwn fod yn un â sensitifedd a phenodolrwydd uchel (e.e. RT-PCR); gallai effaith canlyniadau negatif anghywir fod yn sylweddol am fod y preswylwyr a'r lleoliad yn agored i niwed, felly dylid sicrhau cyn lleied â phosibl o ganlyniadau o'r fath.

• Ymwelwyr -

- Dylai unigolion sy'n arddangos symptomau a allai fod yn ymwelwyr hunanynysu ac archebu prawf. Ni ddylent ymweld â chartref gofal. Yn y cyd-destun hwn, dylai'r prawf fod yn un â sensitifedd uchel er mwyn atal canlyniadau negatif anghywir.
- Yn achos ymwelwyr sydd heb symptomau, y prif fesur rheoli yw llai o gymysgu cymdeithasol am y 7-14 diwrnod cyn ymweld. Gall profi roi tawelwch meddwl nad yw ymwelydd wedi'i heintio/yn heintus ar adeg yr ymweliad. Yn ddelfrydol, dylai'r broses brofi fod yn un â sensitifedd uchel er mwyn atal canlyniadau negatif anghywir. Os yw sensitifedd y prawf yn is (e.e. dyfais llif dwyffordd), gellir gwneud y broses yn fwy sensitif drwy gynnal profion eildro fel y nodir uchod.
- Dylai ymwelwyr proffesiynol gael eu profi cyn iddynt ymweld â chartref gofal. Os ydynt yn rhan o raglen brofi reolaidd (e.e. o dan raglen brofi'r GIG), ni fydd angen iddynt gael eu profi eto cyn mynd i mewn. Os nad yw ymwelwyr proffesiynol yn rhan o raglen brofi reolaidd, dylent gael eu profi ar adeg yr ymweliad. Yn ddelfrydol, dylai'r prawf fod yn un â sensitifedd uchel er mwyn atal canlyniadau negatif anghywir. Os yw sensitifedd y prawf yn is (e.e. dyfais llif dwyffordd), gellir gwneud y broses yn fwy sensitif drwy gynnal profion eildro fel y nodir uchod.

3. Profi i Ddarganfod

Mae adnabod ac ynysu achosion o COVID-19 yn y gymuned yn lleihau trosglwyddiad yr haint, yn cefnogi'r broses olrhain cysylltiadau ac yn helpu i arafu neu atal lledaeniad y clefyd. Mae lleihau cyffredinrwydd yr haint yn y gymuned yn lleihau nifer yr heintiadau difrifol, yn diogelu unigolion agored i niwed, yn diogelu'r GIG, ac yn lleihau nifer y marwolaethau.

Dylai pawb sy'n credu bod ganddynt symptomau COVID-19 gael prawf. Mae gennym bellach nifer o sianeli y gall pobl eu defnyddio i gael prawf, gan gynnwys rhwydwaith o ganolfannau profi y byddwn yn ychwanegu ato yn 2021, sy'n golygu ei bod yn haws cael prawf COVID-19 nag erioed o'r blaen. Ymhlith ein safleoedd profi mae:

- Safleoedd Profi Rhanbarthol – cyfleusterau profi drwy ffenestr y car
- Safleoedd Profi Lleol – cyfleusterau profi ar droed
- Unedau Profi Symudol – cyfleusterau hyblyg i'w gwneud hi'n haws i bobl gael prawf ac i ganolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r angen mwyaf
- Profion cartref – profion a gaiff eu hanfon at bobl drwy'r post er mwyn iddynt eu cynnal gartref

Ond, o ystyried mai symptomau ysgafn, os o gwbl, a fydd gan bobl o bosibl, ceir rhai cyd-destunau penodol lle y bydd angen inni ddefnyddio dulliau canfod achosion mwy gweithredol fel y rhai a dreialwyd ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon Isaf lle cynhaliwyd profion ardal gyfan ddiwedd mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020.

Mae gwerthusiad manwl o'r dull yn dal i fynd rhagddo ond mae'r canfyddiadau interim yn llywio'r ffordd rydym yn datblygu Fframwaith Profi Cymunedol i Gymru i gefnogi Profi i Ddarganfod. Ymhlith yr egwyddorion arweiniol allweddol bydd yr angen i drefniadau profi cymunedol yng Nghymru gael eu harwain yn lleol, bod yn seiliedig ar dystiolaeth o oruchwyliaeth a gwybodaeth leol, defnyddio asesiadau seiliedig ar risg, integreiddio â threfniadau profi lleol eraill, canolbwyntio ar ardaloedd lle mae'r angen a rhoi strategaeth ymadael ar waith.

Cafodd dulliau canfod achosion gweithredol hefyd eu defnyddio'n llwyddiannus iawn yn ystod 2020 i reoli brigiadau o achosion, a oedd yn nodweddiadol yn gysylltiedig â gweithleoedd. Cefnogwyd y gwaith hwn gan genomeg, sydd wedi bod yn

amhrisiadwy ar gyfer gwahaniaethu rhwng brigiadau o un ffynhonnell a brigiadau o sawl ffynhonnell mewn gweithleoedd – sef gallu y byddwn yn adeiladu arno ac yn ychwanegu ato. Mae profi'r gweithlu cyfan wedi arwain at adnabod achosion positif ac mae'n bosibl na fyddent wedi cael eu hadnabod fel arall, a gallai hynny, yn ei dro, fod wedi cyfrannu at drosglwyddo ymhellach ac yn ehangach yn y gymuned.

Mae genomeg yn cynnig y gallu i rannu grwpiau o brofion positif yn glystalu a all gynrychioli cadwyni trosglwyddo. Mae hwn yn allu pwerus rydym wedi bod yn ei ddefnyddio'n helaeth i gefnogi'r ymateb i frigiadau o achosion yng Nghymru hyd yma. Mae'r gallu hwn, o'i gyfuno â mynd ati i archwilio'r berthynas ag achosion newydd, yn gyfle i adnabod clystyrau posibl o achosion yn gyflym ac yn rhagweithiol, gan olygu bod modd dal brigiadau yn gynharach.

Roedd ein dull ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon Isaf yn cynnwys defnyddio profion llif unffordd ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen yng Nghymru. Roedd hyn yn dilyn cynllun peilot a ddechreuodd yn Lerpwl gyda'r nod o brofi poblogaeth y ddinas gyfan. Y penderfynydd allweddol wrth ganfod unigolion sydd wedi'u heintio/sy'n heintus a rheoli lledaeniad y feirws yw faint o'r boblogaeth a dargedir.

Cynhaliwyd y profion ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon Isaf rhwng 21 Tachwedd a 22 Rhagfyr, gan gynnal cyfanswm o fwy na 50,000 o brofion. Mae hyn yn cynnwys 33,315 o brofion llif unffordd ar safleoedd profi ym Merthyr Tudful a mwy na 3,000 o brofion mewn ysgolion, 14,304 ar safleoedd profi yng Nghwm Cynon Isaf a 1,769 o becynnau profi gartref PCR wedi'u dychwelyd. Roedd hyn yn cyfateb i ddwy ran o dair o'r boblogaeth darged, ac arweiniodd at adnabod 1,135 o achosion positif a gofyn iddynt hunanynysu er mwyn atal trosglwyddiad pellach.

4. Profi i Gynnal

Mae profi staff yn y gweithle yn rheolaidd, gan gynnwys mewn lleoliadau addysg a gofal plant, yn cynyddu'r wylidwriaeth er mwyn gallu nodi achosion asymptomatig yn gyflymach. Gall y profion ategu mesurau allweddol eraill (fel cadw pellter cymdeithasol) i helpu i leihau lledaeniad y feirws a chynnal gwasanaethau. Rydym wedi dechrau treialu profion rheolaidd mewn rhai gweithleoedd a byddwn yn trafod cyfleoedd pellach gyda phartneriaid i ddarparu mwy o brofion i'r gweithlu ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Ar gyfartaledd mae tua 10% o gysylltiadau yn datblygu COVID-19, ond mae hynny'n agosach i 15% yn achos yr amrywiolyn newydd.⁷ Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i gysylltiadau unigolion sydd wedi'u heintio hunanynysu am 10 diwrnod. Er y dylai'r strategaeth hon atal cysylltiadau sydd wedi'u heintio/sy'n heintus rhag cymysgu a throsglwyddo'r haint, mae'n bosibl iddi gael nifer o effeithiau negyddol:

- Gall roi pwysau ar weithlu ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol
- Gall roi pwysau ar fusnesau allweddol sy'n effeithio ar gyflenwadau hanfodol
- Bydd niferoedd mawr o blant a phobl ifanc yn colli allan ar addysg wyneb yn wyneb

Rydym yn ystyried a allai profi cysylltiadau sydd heb symptomau eu galluogi i aros yn y gwaith neu mewn addysg, yn ddiogel, yn hytrach na hunanynysu am 10 diwrnod. Gallai profi unigolion bob dydd am y 5-7 diwrnod ar ôl iddynt gael eu hadnabod fel cysylltiadau leihau'r risg y bydd rhywun yn mynd i'r gwaith neu i leoliad addysg tra bo wedi'i heintio/yn heintus. Gall hefyd gynnig cyfleoedd i ddefnyddio dulliau canfod achosion mwy gweithredol. Rydym yn treialu ac yn gwerthuso'r dull hwn ar hyn o bryd, er enghraifft gyda Heddlu De Cymru. Os bydd yn effeithiol, bydd yn golygu y gallai nifer y bobl nad ydynt yn y gwaith am eu bod yn hunanynysu

leihau, gan olygu ei bod hi'n haws cynnal gwasanaethau allweddol.

Bydd y penderfyniad ynghylch a ellir neu a ddylid profi cysylltiadau yn ddyddiol fel hyn yn dibynnu ar b'un a ellir dilysu'r canlyniadau prawf ai peidio, a yw'r unigolion dan sylw yn gweithio gyda phobl agored i niwed, ac a ydynt yn gweithio mewn lleoliad caeedig. Dim ond cipolwg ar heintusrwydd ar adeg y prawf a roddir gan brofion dyddiol. Bydd risgiau o hyd y gall cyswllt fynd yn heintus rhwng profion. O ystyried y risgiau y gall pobl agored i niwed ddod i gysylltiad â'r feirws mewn lleoliadau caeedig, dim ond ar ôl cynnal asesiad risg unigol gofalus o'r achos a'r amgylchedd y dylid defnyddio'r dull hwn.

Felly, gall y strategaeth hon fod yn briodol mewn rhai cyd-destunau ond nid lle y gall ôl-ffeithiau canlyniad negatif anghywir fod yn ddifrifol iawn. Bydd cynlluniau peilot yn rhoi mwy o wybodaeth inni a fydd yn sail i'n penderfyniadau terfynol.

5. Profi i Alluogi

Wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno'r brechlynnau ac wrth i gyffredinrwydd y feirws ostwng, yn ddiweddarach yn 2021 byddwn yn ceisio gweld sut y gall profion ein helpu ymhellach i ddychwelyd i normalrwydd a bodloni ein chweched blaenoriaeth profi - hybu llesiant ac adferiad economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol.

Wrth inni symud o bandemig i endemig, bydd ein dull yn datblygu a gallai gynnwys profi er mwyn galluogi pobl sy'n cael canlyniadau negatif neu'r rhai sy'n arddangos y lefel ofynnol o wrthgyrff yn eu system i wneud y canlynol:

- Mynd i'r gwaith ac ymgymryd â gweithgarwch dyddiol arferol;
- Mynd i ddigwyddiad diwylliannol neu chwaraeon;
- Teithio'n rhyngwladol;
- Cwrdd â theulu a ffrindiau

⁷ https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/950823/Variant_of_Concern_VOC_202012_01_Technical_Briefing_3_-_England.pdf

Bydd angen gwneud rhagor o waith ar y dull a'r broses brofi a'u cymeradwyo er mwyn cyflawni Profi i Alluogi yn llawn, ond mae angen inni ddechrau paratoi ar gyfer bywyd yn ystod y broses o gyflwyno'r brechlynnau a thu hwnt er mwyn cefnogi agweddau ar ddychwelyd i normalrwydd. Gall cynlluniau profi priodol ac effeithiol gynnig mesurau diogelu ychwanegol ochr yn ochr â'r brechlynnau.

Ochr yn ochr â phroffion sy'n canolbwyntio ar y brechlynnau eu hunain, bydd yn hollbwysig gallu archwilio methiannau gyda'r brechlynnau, a gweld a oes ffactorau neu fwtaniadau feirysol a all egluro methiant o'r fath. Genomeg sy'n cynnig yr unig system i wneud y math hwn o waith dadansoddi, a byddwn yn rhoi systemau ar waith i sicrhau y caiff achosion sy'n deillio o fethiant brechlynnau eu nodweddu gan ddefnyddio genomeg. Wedyn, gellir cyfuno hyn â data gwyliadwriaeth eraill fel bod modd rhoi mesurau iechyd y cyhoedd ar waith os bydd angen, yn ogystal â rhoi data gwerthfawr i gynhyrchwyr brechlynnau er mwyn eu galluogi i ddiweddarau brechlynnau yn ôl yr angen.

Profion gwrthgyrff

Cynhyrchir gwrthgyrff naturiol gan y corff mewn ymateb i haint ac fel arfer gellir eu canfod yn y gwaed ar ôl tua phythefnos yn dilyn haint. Mae lefelau'r gwrthgyrff fel arfer yn gostwng pan fydd rhywun yn gwella, ac efallai na fyddant yn cael eu canfod drwy brawf ar ôl i beth amser fynd heibio wedi i'r unigolyn wella. Ar ôl brechiad, mae'r brechlyn yn ysgogi'r corff i gynhyrchu gwrthgyrff. Mae'r rhain hefyd yn cymryd amser i ddatblygu. Nid ydym yn gwybod eto a yw'r gwrthgyrff hyn yn gostwng dros amser mewn unigolyn sydd wedi'i frechu ac/neu a oes modd i unigolyn sydd wedi'i frechu drosglwyddo'r feirws.

Hyd yma defnyddiwyd profion gwrthgyrff i fesur serogyffredinrwydd gwrthgyrff COVID-19; hynny yw, lefel y gwrthgyrff COVID-19 sy'n bresennol yn serwm gwaed poblogaeth. Rhwng Mehefin a Tachwedd 2020, cynhaliwyd profion gwrthgyrff ar gyfer grwpiau blaenoriaeth allweddol: gweithwyr gofal iechyd, gweithwyr gofal cymdeithasol a phreswylwyr cartrefi gofal, athrawon a disgyblion yn yr hybiau addysg. Cynhaliwyd dros 89,000 o broffion gwrthgyrff ac roedd 11% o'r canlyniadau yn positif. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig profion gwrthgyrff i weithwyr gofal cartref. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i ddeall pa mor gyffredin yw'r clefyd mewn gwahanol boblogaethau ac i wella ein dealltwriaeth o'r feirws a sut mae'n effeithio ar bobl.

Rydym bellach yn ystyried sut y gall profion gwrthgyrff ac astudiaethau o boblogaeth Cymru ein helpu i ddeall effeithiolrwydd y brechlyn o ran imiwnedd, i unigolion ac ar draws y boblogaeth. Bydd angen hefyd inni werthuso'r dull gweithredu hwn yng ngoleuni'r ffaith fod yr amrywiolyn newydd yn fwy trosglwyddadwy.

Y Camau Nesaf

Caiff y cynlluniau a'r camau gweithredu o dan bob un o'r blaenoriaethau eu datblygu a'u rhoi ar waith mewn partneriaeth â Byrddau Iechyd Lleol a phartneriaid allweddol eraill. Mae partneriaid eisoes yn cydweithio ac yn rhannu arferion yn effeithiol. Byddwn yn parhau i sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei rhannu, a gweithio fel tîm ledled Cymru er mwyn sicrhau y gallwn fanteisio i'r eithaf ar gapasiti, rheoli heriau yn ymwneud ag adnoddau a lleihau cymhlethdod yn y system.

Byddwn hefyd yn ymgorffori prosesau adolygu a gwerthuso rheolaidd mewn meysydd allweddol er mwyn cefnogi'r ffordd y byddwn yn datblygu cam nesaf ein dull profi, ochr yn ochr â brechu mwy o'r boblogaeth.